



## Cynghorwr Anabledd

- Yr hyn y gallwn ni ei wneud i chi
- Cyfrinachedd
- I bwy mae'r Lwfans Myfyrwyr Anabl?
- Tystiolaeth Feddygol
- Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP)
- Apwyntiadau

Ffôn: 01248 383620 /382032

E-bost: [gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk](mailto:gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk)

### Dyma rai o'r pethau y gallwn eu cynnig i chi:

- Rhoi gwybodaeth am faterionsy'n ymwneud ag anabledd, ac am y gwasanaethau a'r gefnogaeth a allai fod ar gael.
- Rhoi cyngor ar strategaethau i hwyluso astudio a thasgau bob dydd.
- Cynorthwyo gydag anghenion arholiadau, e.e. trefnu amser ychwanegol.
- Trefnu darpariaeth a chefnogaeth llyfrgell ychwanegol.
- Cysylltu ar eich rhan, yn ôl yr angen a chyda'ch caniatâd chi, gydag aelodau staff i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle.
- Cadw mewn cysylltiad trwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a newyddlenni.
- Cydweithio'n agos gyda'r Tiwtor Anabledd yn eich ysgol.
- Trefnu benthycy cyfarpar, e.e. recordwyr digidol (lle maent ar gael).
- Trefnu mynediad i ystafelloedd technoleg gynorthwyol gyda chyfrifiaduron, sganiwr a meddalwedd technoleg gynorthwyol.

### Cyfrinachedd:

Mae pob trafodaeth yn gyfrinachol ac ni wnawn rannu gwybodaeth oni bai bod rhywun yn y brifysgol angen gwybod, pan fydd hynny'n briodol a chyda'ch caniatâd chi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

<http://www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr>

### Lwfans Myfyrwyr Anabl - I bwy mae'r Lwfans?

Peidiwch â gadael i'r enw eich rhwystro rhag gwneud cais! Grant yw'r Lwfans Myfyrwyr Anabl i helpu i dalu am y costau ychwanegol gall myfyrwyr eu hwynebu oherwydd 'anabledd', sy'n cynnwys: cyflyrau iechyd parhaus, problemau iechyd meddwl, sbectwm awtistiaeth ac anawsterau dysgu penodol megis dyslecsia.

### Tystiolaeth Feddygol:

Gall hyn fod yn adroddiad Seicolegydd Addysgol neu lythyr gan feddyg neu ymarferwr meddygol arall. Gofynnir i chi am dystiolaeth ddogfennol fel y gellir gwneud rhai addasiadau neu drefniadau (e.e. trefniadau arholiadau, trwydded barcio). Os byddwch yn gwneud cais am y Lwfans, bydd eich darparwr cyllid (e.e. Cyllid Myfyrwyr) hefyd yn gofyn i chi ddarparu dystiolaeth ddogfennol.

### Cynllun Cefnogi Dysgu Personol:

Caiff Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol eu llunio ar gyfer myfyrwyr unigol i amlinellu'r trefniadau a'r strategaethau sydd eu hangen i gynorthwyo â goresgyn rhwystrau.

I gael apwyntiad: ffoniwch 01248

383620 / 382032 neu anfonwch e-bost at

[gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk](mailto:gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk) Rydym yn Gwasanaethau Myfyrwyr, Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone. Mae ein swyddfeydd yn agored o 9.00 y.b. tan 5.00 y.h. Llun i Ddydd Gwener.

(Mae'r daflen hon ar gael mewn gwahanol fformat)